Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Y Deri

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae'r weledigaeth yn Ysgol y Deri wedi'i gwreiddio'n gadarn yng ngwerthoedd 'potensial, cyfle a chyflawniad'. Mae'r diwylliant yn treiddio trwy bob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol ar draws ystod helaeth ac amrywiol darpariaethau'r ysgol.

Mae Ysgol y Deri yn gymuned hapus ac anogol. Mae staff ar draws y timau addysgu a therapiwtig yn gweithio gyda'i gilydd yn eithriadol o dda i ddarparu lefelau uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer disgyblion, sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cryf ym mhob agwedd ar eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn meithrin perthnasoedd cryf ac ymddiriedus â staff.

Mae gan bob un o'r disgyblion yn yr ysgol anghenion dysgu ychwanegol ac mae ganddynt naill ai gynllun datblygu unigol (CDU) neu ddatganiad o anghenion addysgol. Mae'r ysgol wedi sefydlu ymagwedd glir a diffiniedig at gyflwyno'i darpariaeth, gan ddiwallu anghenion pob disgybl yn effeithiol. Mae arweinwyr a staff wedi sicrhau ystod eang o ddarpariaethau ac ymyriadau arbenigol o ansawdd uchel sy'n cefnogi pob disgybl yn llwyddiannus. Mae Ysgol y Deri yn cynnal ystod eang o bartneriaethau effeithiol â gweithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau allanol, sy'n ymestyn y cymorth sydd ar gael i ddisgyblion yn sylweddol.

Ar draws pob lleoliad, mae staff yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion, gan greu amgylchedd dysgu tawel a chefnogol. Mae disgyblion yn mwynhau dysgu ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig. Mae ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion ar draws yr ysgol yn eithriadol o dda. Mae arferion sefydledig, fel chwarae strwythuredig, pontio, a dulliau synhwyraidd, yn cefnogi ymgysylltiad disgyblion a rheoleiddio yn effeithiol.

Mae gan staff addysgu ffocws clir ar ddatblygu medrau disgyblion mewn meysydd pwysig sydd wedi'u cysylltu'n dda â'u hanghenion unigol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion cymhleth yn datblygu annibyniaeth gynyddol, sy'n gwella bywyd yn eu symudedd mewn ymyriadau hynod effeithiol y maent yn eu cymhwyso'n ddiweddarach yn yr ystafell ddosbarth ac yn eu bywyd ehangach.

Mae staff yn dangos medrau cryf o ran cefnogi cyfathrebu disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n llwyddiannus, sy'n eu galluogi i fanteisio ar y cwricwlwm, ymgysylltu â'i gilydd, gwneud dewisiadau a mynegi eu hunain yn effeithiol. Ymhellach, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau annibyniaeth sy'n briodol i'w hanghenion datblygiadol.

Mae disgyblion yn dysgu rheoli eu hemosiynau yn effeithiol ac yn gwneud cynnydd amlwg yn eu parodrwydd i ddysgu dros gyfnod. Er enghraifft, gyda chymorth unigol wedi'i deilwra'n fedrus, caiff y

disgyblion hynny sydd â hanes o gael eu gwahardd a diffyg presenoldeb cyn mynychu'r ysgol eu hailintegreiddio mewn amgylchedd dysgu ac wedyn mewn dysgu ffurfiol, gyda deilliannau achrededig sy'n cynorthwyo'u camau nesaf mewn dysgu.

Mae gweithdrefnau presenoldeb cadarn ar waith ar draws yr ysgol, sy'n cefnogi gwelliant mewn presenoldeb ar gyfer llawer o ddisgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau clir ar gyfer cofnodi ac olrhain ymyrraeth a chymorth a deilliannau ar gyfer disgyblion targedig. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae presenoldeb grŵp penodol o ddisgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM) yn parhau i fod yn rhy isel.

Mae'r cynnig cwricwlwm yn Ysgol y Deri yn eang, yn gytbwys ac yn bwrpasol, ac yn darparu ystod o brofiadau buddiol ac ysgogol mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn arwain at achrediad gwerthfawr, lle bo'n briodol. Ymhellach, mae sesiynau llais y disgybl yn sicrhau bod disgyblion yn dylanwadu ar gynllunio'u dysgu i ymgorffori'r hyn sy'n eu cymell, yn eu cyffroi ac sy'n bwysig iddynt.

Mae'r pennaeth yn mynegi gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn llwyddiannus, ar draws ystod helaeth ac amrywiol y darpariaethau. Er gwaethaf yr heriau sylweddol a achoswyd yn sgil ehangu'r ysgol yn gyflym ac yn ddiweddar gan yr awdurdod lleol, mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth bwyllog, sensitif a phwrpasol. Caiff ei gefnogi'n fedrus iawn gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, fel ei gilydd. Mae arweinwyr yn effeithiol yn eu rolau a'u cyfrifoldebau, gan wneud penderfyniadau strategol ar gyfer gwella yn seiliedig ar ystod bwrpasol o brosesau sicrhau ansawdd sydd wedi hen ennill eu plwyf. Mae prosesau hunanwerthuso yn gadarn, ar y cyfan, ac wedi eu cysylltu'n glir â blaenoriaethau gwella. Mae dadansoddi a gwerthuso data deilliannau yn llai datblygedig.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Parhau i wella presenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion yn yr ysgol

A2 Mireinio cynllunio datblygiad, gan ganolbwyntio'n glir ac yn gyson ar effaith blaenoriaethau a mentrau ysgol gyfan ar ddeilliannau disgyblion

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/04/2025